

# GEMAU PLALADDWYR: FFAWD YR HEBOG TRAMOR

## AMCAN

Mae'r gêm hon yn archwilio sut mae gwenwyn fel plaladdwyr yn cronni yn y gadwyn fwyd.

## TROSOLWG

Mae rhai plaladdwyr yn aros yn wenwynig ar ôl cael ei amsugno gan anifail. Mae ysglyfaethwr sy'n bwyta'r anifail hwnnw wedyn mewn perygl. Mae'r gêm hon yn dangos na fydd gwenwyn yn lladd yr anifail sy'n ei fwyta yn syth, ond yn cronni wrth deithio i fyny'r gadwyn fwyd, gyda chanlyniadau enbyd i anifeiliaid ar y brig.

## AMSER GOFYNNOL

10 munud

## CYFRANOGWYR

Grwpiau o chwech neu fwy

## ADNODDAU GOFYNNOL

- Cerdyn wedi'i rifo ar gyfer pob chwaraewr
- Tri chynhwysydd, a phob un wedi'i lenwi â grawn gwahanol (ffa Ffrengig, corbys, ffacbys, hadau)
- Bag gyda chymysgedd o bob un o'r grawn
- Cerdyn dan y teitl Ffawd yr Hebog Tramor

## CANLYNIADAU DYSGU

- Deall bod gwenwyn megis plaladdwyr yn gallu cronni wrth basio drwy'r gadwyn fwyd
- Deall y gall y cronniad hwn fod yn angheuol ar gyfer anifeiliaid ar frig y gadwyn fwyd

## GEMAU PLALADDWYR: CYFARWYDDIADAU

1. Gofynnwch am wirfoddolwr i fod yn hebog tramor. Mae gweddill y grŵp yn golomennod ac yn cael cerdyn wedi'i rifo.
2. Rhowch dri chynhwysydd grawn yng nghanol y grŵp. Esboniwch fod pob cynhwysydd yn cynrychioli cae o rawn mae'r colomennod yn eu bwyta.
3. Mae pob colomen yn cael bwyta'r grawn, a chymryd chwe darn mewn unrhyw gyfuniad.
4. Mae'r hebog tramor yn dewis chwe rhif. Mae'r colomenod sy'n cyfateb i'r rhifau yn camu ymlaen ac yn rhoi eu hadau.
5. Mae un o'r caeau wedi'i orchuddio â phlaladdwr gwenwynig, fydd yn cael effaith wael ar yr hebog tramor os yw'n amsugno gormod ohono.
6. Er mwyn penderfynu faint o rawn oedd yn wenwynig, dewiswch, heb edrych, un gronyn o'r bag o rawn cymysg.
7. Cyfrifwch nifer y grawn gwenwynig mae'r hebog tramor wedi'u derbyn, a chyhoeddi ffawd yr hebog tramor.
8. Beth oedd ffawd yr hebog tramor?

## FFAWD YR HEBOG TRAMOR

<b>8 neu lai o hadau gwenwynig</b>	Pob wŷy wedi deor, a magwyd pedwar cyw
<b>9 o hadau gwenwynig</b>	Methodd un wŷy, a magwyd tri chyw
<b>10 o hadau gwenwynig</b>	Methodd dau wŷy, a magwyd dau gyw
<b>11 o hadau gwenwynig</b>	Methodd tri wy, a magwyd un cyw
<b>12 o hadau gwenwynig</b>	Methodd pedwar wŷy, a dim cyw iach
<b>13 neu fwy o hadau gwenwynig</b>	Gormod o wenwyn – HEBOG YN MARW

## DEUCLORO DEUFFENYL TRICLOROETHAN (DDT)

Rhwng y 1950au a'r 1970au plymiodd poblogaeth yr hebog tramor ar draws y byd o ddegau o filoedd i ychydig gannoedd. Y rheswm dros hyn oedd y plaladdwr cyffredin, DDT, gan fod crynodiadau uchel o DDT mewn adar yn gallu achosi gwendid ym mhlisgyn eu hwyau, gan arwain at ostyngiad yn eu poblogaeth. Mae DDT bellach wedi'i wahardd.

## BETH FYDDAI'N DIGWYDD PE BAI ADAR YSGLYFAETHUS YN CAEL EU TYNNU O'R GADWYN FWYD?

Tasech chi'n tynnu'r prif ysglyfaethwr o gadwyn fwyd, byddai niferoedd llawer mwy o'u prae, allai gynyddu cystadleuaeth am adnoddau prin fel bwyd a lloches.

## SUT ALLWN NI HELPŪ I ADFER POBLOGAETH YR HEBOG TRAMOR?

Bydd yr hebog tramor yn aml yn clwydo mewn adeileddau dinesig uchel fel pontydd, eglwysi cadeiriol a nendyrau sy'n debyg i ymylon y clogwyni y bydden nhw'n nythu arnynt yn naturiol. Mae blychau nythu arbennig wedi cael eu gosod mewn dinasoedd i roi lle diogel i adar nythu. Mae elusennau fel yr Ymddiriedolaethau Natur yn gweithio gyda chynllunwyr, datblygwyr a thirfeddianwyr i helpu i wneud ein trefi a'n dinasoedd cystal i fywyd gwyllt ag i bobl. Am fwy o wybodaeth am ddyfodol ffermio cynaliadwy ewch i [dudalennau BBC Future](#).